# Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i TFW Fibre Limited

Hysbysiad statudol o dan adran 107(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd: 1 Mai 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 1 Mehefin 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg .......... 3
2. Cefndir .......... 4
3. Rhesymau dros y cynnig .......... 10


## Atodiad


A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn .......... 15
A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom .......... 18
A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad .......... 19
A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad .......... 21
A5. Hysbysiad statudol .......... 22

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r cod cyfathrebiadau electronig yn set o hawliau sydd wedi'u bwriadu i gynorthwyo darparwyr rhwydweithiau cyfathrebiadau a/neu systemau seilwaith. Caiff gweithredwyr y mae Ofcom yn cymhwyso'r Cod iddynt wneud y canlynol:

- adeiladu a chynnal rhwydweithiau a seilwaith cyfathrebiadau (fel pibelli, cabinetau a pholion) ar briffyrdd cyhoeddus heb fod angen cael trwydded gwaith stryd i wneud gwaith o'r fath;
- adeiladu seilwaith cyfathrebiadau sy'n cael ei ddosbarthu fel 'datblygiadau a ganiateir' o dan ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref (fel mathau penodol o fastiau, polion a chabinetau) heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio; ac
- os na ellir dod i gytundeb â pherchennog neu ddeiliad tir preifat ynghylch defnyddio rhwydweithiau neu seilwaith cyfathrebiadau ar dir preifat, gwneud cais i'r Llys i orfodi cytundeb sy'n rhoi hawl y Cod y mae'r gweithredwr yn gofyn amdani neu sy'n darparu bod hawl y Cod yn rhwymo'r tirfeddiannwr neu'r meddiannydd.

1.2 Rydym yn ystyried ceisiadau am roi pwerau'r Cod gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig a darparwyr systemau seilwaith (neu'r ddau) gan gyfeirio at y materion a nodir yn adran 107(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

**Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno**

Rydym yn cynnig cymhwyso'r cod cyfathrebiadau electronig a amlinellir yn Atodlen 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 i TFW Fibre Limited, sydd â'r rhif cwmni cofrestredig 15472858, at y diben ei fod yn darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a system seilwaith.

Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein cynnig erbyn 1 Mehefin 2025.

Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi pwerau'r Cod i TFW Fibre Limited.

# 2. Cefndir

2.1 Mae'r cod cyfathrebiadau electronig (y Cod) wedi'i amlinellu yn Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Mae wedi'i ddylunio i hwyluso'r gwaith o osod a chynnal a chadw rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig.[1] Mae'n rhoi hawliau i ddarparwyr rhwydweithiau o'r fath ac i ddarparwyr systemau seilwaith osod a chynnal a chadw cyfarpar ar y tir, o dan y tir a dros y tir, ac mae'n arwain at weithdrefnau cynllunio mwy syml o lawer.

2.2 Pan fo'r Cod yn cael ei gymhwyso i unrhyw berson, gall fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac amodau a nodir mewn deddfwriaeth arall o bryd i'w gilydd.[2]

## Cymhwyso'r Cod

2.3 Mae'r Cod yn berthnasol i berson dim ond drwy gyfarwyddyd gan Ofcom (neu, yn achos yr Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw adran yng Ngogledd Iwerddon, pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r adran honno'n darparu neu'n cynnig darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig).[3]

2.4 At y dibenion hyn yn unig y gellir cymhwyso'r Cod i berson drwy gyfarwyddyd:

a) ei fod yn darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig;
b) ei fod yn darparu system seilwaith y mae'n sicrhau ei bod ar gael, neu'n cynnig sicrhau ei bod ar gael, i'w defnyddio gan ddarparwyr cyfathrebiadau electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau.[4]

2.5 Gall cyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod i berson ddod i rym:

a) mewn perthynas dim ond â'r mannau neu'r ardaloedd hynny sydd wedi'u pennu neu eu disgrifio yn y cyfarwyddyd;
b) at ddibenion darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig o'r fath, neu ran o rwydwaith cyfathrebiadau electronig, a bennir neu a ddisgrifir felly yn unig; neu
c) at ddibenion darparu unrhyw system seilwaith, neu ran o system seilwaith, a bennir neu a ddisgrifir felly yn unig.[5]

## Y broses gwneud cais ar gyfer cymhwyso'r Cod

2.6 Ni chaiff Ofcom roi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i unrhyw berson oni bai fod y person hwnnw wedi gwneud cais at y diben hwnnw.[6]

---

[1] Mae "rhwydwaith cyfathrebiadau electronig" at ddibenion y Cod yn golygu'r un peth ag y mae yn adran 32 o'r Ddeddf.
[2] Adran 109 o'r Ddeddf – gweler Rheoliadau'r Cod Cyfathrebiadau Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) 2003 (OS 2003 Rhif 2553), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Cod Cyfathrebiadau Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) (Diwygio) 2009 (OS 2009 Rhif 584), Rheoliadau'r Cod Cyfathrebiadau Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) (Diwygio) 2013 (OS 2013 Rhif 1403), a Rheoliadau'r Cod Cyfathrebiadau Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) (Diwygio) 2017 (OS 2017/753).
[3] Adran 106(3)(b) o'r Ddeddf.
[4] Adran 106(4) o'r Ddeddf.
[5] Adran 106(5) o'r Ddeddf.
[6] Adran 107(1) o'r Ddeddf.

2.7 Rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath yn unol â'r gofynion sydd mewn grym ar y pryd mewn perthynas â chynnwys cais am gyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod a'r modd y dylid gwneud cais o'r fath.[7]

## Terfyn amser ar gyfer gwneud penderfyniad ar geisiadau'r Cod

2.8 Mae rheoliad 3(2) o Reoliadau Cyfathrebiadau Electronig a Thelegraffiaeth Ddi-wifr 2011[8] yn darparu, ac eithrio mewn achosion o ddifeddu, bod yn rhaid i Ofcom wneud ei benderfyniad o fewn 6 mis i gael cais cyflawn. Mewn geiriau eraill, mae'r terfyn amser hwnnw'n berthnasol o'r funud y mae Ofcom yn cael cais sy'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion a ddisgrifir uchod.

## Y broses ymgynghori statudol ar gynnig

2.9 Cyn rhoi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i'r ceisydd dan sylw, rhaid i Ofcom gyhoeddi hysbysiad o'i gynnig i roi'r cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau am y cynnig hwnnw sy'n cael eu gwneud i Ofcom o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.[9]

2.10 Rhaid i hysbysiad o'r fath gynnwys y canlynol[10]:

a) datganiad o gynnig Ofcom;[11]
b) datganiad o resymau Ofcom dros y cynnig hwnnw;
c) datganiad o'r cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau i Ofcom am y cynnig (rhaid i'r cyfnod hwnnw ddod i ben o leiaf 30 diwrnod ar ôl diwrnod cyhoeddi'r hysbysiad[12]).

2.11 Rhaid i Ofcom gyhoeddi hysbysiad mewn modd y mae Ofcom yn credu sy'n briodol ar gyfer dwyn yr hysbysiad i sylw'r unigolion y mae'n debygol o effeithio arnynt, ym marn Ofcom.[13]

2.12 Mae'r hysbysiad a gyhoeddir yn Atodiad 5 y ddogfen hon yn hysbysiad at ddibenion o'r fath a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y rhesymau a nodir yn Adran 3.

---

[7] Adran 107(2) o'r Ddeddf. I weld y gofynion cyfredol, gweler yr Hysbysiad o dan adran 107(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, dyddiedig 6 Hydref 2003, yn Atodiad B y datganiad o'r enw 'The Granting of the Electronic Communications Code by the Director General of Telecommunications – A Statement issued by the Director General of Telecommunications', a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2003

[8] OS 2011 Rhif 1210.

[9] Adran 107(6) o'r Ddeddf.

[10] Adran 107(7) o'r Ddeddf.

[11] Yn ddarostyngedig i adrannau 113(7) a 115(5) o'r Ddeddf, rhaid i'r datganiad o gynnig Ofcom gynnwys datganiad bod Ofcom yn cynnig cymhwyso'r cod i'r person dan sylw a nodi unrhyw gynigion gan Ofcom i osod telerau o dan adran 106(5): gweler adran 107(8) o'r Ddeddf.

[12] Adran 107(9) o'r Ddeddf.

[13] Adran 107(10) o'r Ddeddf.

# Ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniad (pedwar ffactor)

2.13 Wrth ystyried a ddylid cymhwyso'r Cod i unrhyw berson, rhaid i Ofcom roi sylw, yn benodol, i bob un o'r materion canlynol[14]:

a) y budd i'r cyhoedd o ganlyniad i'r rhwydwaith cyfathrebiadau electronig neu'r system seilwaith y cyfeirir ati wrth gymhwyso'r Cod i'r person hwnnw;
b) ymarferoldeb darparu'r rhwydwaith neu'r system honno heb gymhwyso'r Cod;
c) yr angen i hybu'r arfer o rannu cyfarpar cyfathrebiadau electronig;
d) a fydd y person y cynigir cymhwyso'r Cod iddo yn gallu talu dyledion sy'n codi o ganlyniad i gymhwyso'r Cod yn achos y person hwnnw ac unrhyw ymddygiad gan y person hwnnw mewn perthynas â'r materion sydd dan sylw yn y Cod.

2.14 At ddibenion y broses hon, mae'r pedwar ffactor hynny'n gyfartal â dyletswyddau statudol Ofcom o dan adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf.[15] Lle bo'n briodol, y tu allan i'r ystyriaethau statudol hynny, byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol sydd, yn ein barn ni, yn berthnasol i'r cais penodol.

# Dyletswyddau statudol

## Dyletswyddau cyffredinol

2.15 Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf (sy'n cynnwys rhoi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod), prif ddyletswydd Ofcom fel y nodir yn adran 3 o'r Ddeddf yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.

2.16 Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni sicrhau nifer o amcanion penodol a rhoi sylw i nifer o faterion a nodir yn adran 3. O ran yr amcanion statudol penodol a ragnodir yn adran 3(2), credwn fod yr amcan o sicrhau bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig ar gael ledled y DU yn arbennig o berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.

2.17 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n rhaid i Ofcom hefyd roi sylw i amrywiaeth o ystyriaethau eraill, sy'n ymddangos yn berthnasol i ni o dan yr amgylchiadau. Yn y cyd-destun hwn, credwn fod nifer o ystyriaethau o'r fath yn berthnasol, yn enwedig:

a) pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol;
b) pa mor ddymunol yw hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol;
c) pa mor ddymunol yw hybu argaeledd gwasanaethau trosglwyddo data cyflym iawn a'r defnydd ohonynt ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

2.18 Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu'n benodol at achosion lle mae angen gweithredu, yn ogystal â buddiannau defnyddwyr o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

[14] Adran 107(4) o'r Ddeddf.
[15] Adran 107(5) o'r Ddeddf.

2.19 Mae gan Ofcom gryn dipyn o ddisgresiwn wrth gydbwyso ei amcanion a'i ddyletswyddau statudol. Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi sylw i'r holl ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion a geir yn ystod ein proses ymgynghori, wrth ddod i'n casgliadau.

## Dyletswyddau penodol mewn perthynas â swyddogaethau rheoleiddiol penodol

2.20 Wrth gyflawni swyddogaethau penodol fel rhoi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod, mae adran 4 o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn gweithredu yn unol â'r chwe gofyniad a nodir yn yr adran honno.

2.21 Yn gryno, dyma'r chwe gofyniad hynny:

a) hybu cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig, cyfleusterau cysylltiedig a chyflenwi cyfeiriaduron;
b) hybu buddiannau holl aelodau'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig;
c) ystyried pa mor ddymunol yw hi bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd nad yw, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, yn ffafrio un math neu fodd o ddarparu rhwydweithiau neu wasanaethau cyfathrebiadau electronig, neu gyfleusterau cysylltiedig, dros un arall, hy bod yn niwtral yn dechnolegol;
d) hybu, i'r graddau y mae Ofcom yn credu sy'n briodol ar gyfer rhai dibenion rhagnodedig, mynediad i rwydweithiau a rhyngweithrediad gwasanaethau, sef sicrhau effeithlonrwydd a chystadleuaeth gynaliadwy, buddsoddiad ac arloesedd effeithlon, a'r budd mwyaf i gwsmeriaid darparwyr cyfathrebiadau a phobl sy'n cyflenwi cyfleusterau cysylltiedig;
e) hybu cydymffurfedd â safonau penodol fel y bo'n angenrheidiol i hwyluso rhyngweithrediad gwasanaethau; hwyluso cysylltedd o'r dechrau i'r diwedd; helpu defnyddwyr i newid eu darparwyr cyfathrebiadau; helpu defnyddwyr i gadw eu rhifau ffôn ar ôl newid darparwr cyfathrebiadau; a sicrhau bod gan gwsmeriaid ryddid i ddewis darparwyr cyfathrebiadau;
f) hybu cysylltedd a mynediad at rwydweithiau capasiti uchel iawn i aelodau o'r cyhoedd a busnesau yn y Deyrnas Unedig.

2.22 Credwn fod y cyntaf, yr ail, y pedwerydd a'r chweched o'r gofynion hynny yn arbennig o berthnasol i'n cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, ac nad oes unrhyw wrthdaro'n codi yn hyn o beth â'r amcanion penodol yn adran 3 yr ydym wedi nodi eu bod yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn.

## Materion sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn

2.23 Mae rôl Ofcom mewn perthynas â rhoi pwerau'r Cod wedi'i chyfyngu i ystyried ceisiadau gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig a/neu systemau seilwaith, gan ystyried ei ddyletswyddau statudol o dan adrannau 3, 4 a 107(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 fel y nodir uchod.

2.24 Felly, nid yw Ofcom yn gallu ystyried sylwadau am bolisi'r Llywodraeth sy'n sail i'r fframwaith statudol sy'n amlinellu'r Cod ac i'r hawliau sydd ar gael i weithredwyr y Cod i hwyluso'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau cyfathrebiadau uwch.

2.25 Ni all Ofcom chwaith ystyried sylwadau am bolisi'r Llywodraeth a diogelwch meysydd electromagnetig (EMFs). Nid oes angen pwerau'r Cod ar ddarparwyr i ddefnyddio offer sy'n allyrru EMFs ac nid yw'r Cod yn gosod lefelau diogelwch ar gyfer allyriadau o'r fath. Rydym

wedi cyhoeddi tudalen gyngor ar ein gwefan, sy’n egluro’r broses o reoleiddio EMFs ac yn nodi’r sefydliadau sy’n gyfrifol am sicrhau bod gweithredwyr symudol yn cydymffurfio â’r rheoliadau perthnasol.[16]

## Asesu’r effaith

2.26 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau mynnu ein bod yn cynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig ar fusnesau neu’r cyhoedd os yw’r effaith yn debygol o fod yn sylweddol neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

2.27 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn rhan o’r gwaith o lunio polisïau da ac felly rydym yn disgwyl eu cynnal mewn perthynas â’r rhan fwyaf o’n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i’n helpu i ddeall ac asesu effaith bosib ein penderfyniadau polisi cyn i ni wneud y penderfyniadau hynny. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio’r penderfyniadau polisi rydym wedi’u gwneud a pham ein bod yn credu mai’r penderfyniadau hynny sy’n cyflawni ein dyletswyddau a’n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy’n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.[17]

2.28 Mae’r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â’r cynnig sydd dan sylw yn ein hymgynghoriad wedi’u nodi uchod. Fel y trafodwyd ym mharagraff 2.13, mae’r rhain yn cynnwys y pedwar ffactor y mae’n rhaid i ni roi sylw penodol iddynt wrth ystyried a ddylid cymhwyso’r Cod i berson. Credwn fod y rhain yn arbennig o berthnasol i’n hasesiad o effaith y cynnig hwn.

2.29 Rydym yn disgwyl i’r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddinasyddion a defnyddwyr oherwydd bydd rhoi pwerau’r Cod yn helpu’r Ceisydd i gyflwyno rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a system seilwaith, fel y disgrifir yn adran 3.

2.30 Rydym yn disgwyl y bydd cyflwyno rhwydweithiau a systemau seilwaith o’r fath yn gwella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael, ac yn helpu i fodloni anghenion cynyddol pobl a busnesau am gysylltedd. Pan fydd darparwyr yn ehangu eu darpariaeth rhwydwaith, rydym yn disgwyl i gystadleuaeth ysgogi arloesedd a chynyddu’r dewis i gwsmeriaid.

2.31 Yn adran 3, rydym hefyd wedi crynhoi’r manteision y mae’r Ceisydd yn credu y byddent yn gysylltiedig â chyflwyno’r rhwydwaith arfaethedig.

2.32 I roi’r darlun cyflawn, rydym yn nodi y gallai gwaith stryd sy’n gysylltiedig â chyflwyno’r rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a’r system seilwaith arfaethedig darfu ar ddinasyddion yn y tymor byr. Gallai hyn gynnwys cau strydoedd, cyfyngiadau traffig a sŵn sy’n gysylltiedig â gwaith i osod cyfarpar cyfathrebiadau electronig. Efallai y bydd effaith weledol hefyd os bydd y Ceisydd yn defnyddio cyfarpar fel cabinetau, polion a llinellau uwchben. Rydym yn nodi bod gan y gweithredwyr y mae’r Cod yn berthnasol iddynt hawliau i osod cyfarpar cyfathrebiadau electronig ar briffyrdd cyhoeddus, yn amodol ar rwymedigaethau penodol fel y nodir yn yr amodau a’r cyfyngiadau sy’n gysylltiedig â’r Cod, deddfwriaeth gwaith stryd a deddfwriaeth cynllunio. Mae’r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys gofynion sy’n ymwneud â’r modd y cynhelir gwaith stryd, y mathau o gyfarpar y gellir eu gosod, effaith weledol cyfarpar a’r gofynion cynllunio perthnasol.

[16] ofcom.org.uk/cy/spectrum/electromagnetic-fields/general?language=cy
[17] Ofcom, Canllawiau Asesu Effaith, Gorffennaf 2023.

2.33 Wrth ystyried effaith bosib y cynnig sydd dan sylw yn ein hymgynghoriad, rydym wedi ystyried yr opsiynau allweddol canlynol:

a) rhoi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i'r Ceisydd;
b) peidio â rhoi cyfarwyddyd o'r fath.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

2.34 Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd ein cynnig yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys, yn fras, hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfleoedd cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.[18]

2.35 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posib ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).

2.36 Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu hefyd ein bod yn rhoi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pa mor agored i niwed yw plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
- anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel;
- gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

2.37 Credwn y gallai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010 neu Ddeddf 1998), yn wahanol i'r boblogaeth gyffredinol. Fel y nodwyd yn ein hasesiad o'r effaith uchod, bydd ein cynnig yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a system seilwaith gan y Ceisydd, ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddinasyddion. Gallai grwpiau penodol elwa i raddau mwy na'r boblogaeth gyffredinol, yn dibynnu ble mae'r Ceisydd yn dewis cyflwyno ei rwydwaith. Er enghraifft, gall y Ceisydd gyflwyno ei rwydwaith mewn lleoliadau lle mae cynrychiolaeth sylweddol o bobl â nodweddion gwarchodedig neu mewn ardaloedd trefol neu wledig, a allai helpu i hybu cyfleoedd cyfartal yn yr ardaloedd hynny.

2.38 Yn adran 3, rydym wedi disgrifio'r effeithiau gwahaniaethol rydym wedi'u nodi. Fodd bynnag, o ystyried cwmpas cul ein cynnig ac mai'r Ceisydd sydd i benderfynu ble mae'n cyflwyno ei rwydwaith a'i system seilwaith, nid ydym wedi cynnal asesiad manwl o'r effeithiau gwahaniaethol cadarnhaol hyn.

[18] Mae rhagor o fanylion yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

# 3. Rhesymau dros y cynnig

3.1 Mae'r adran hon yn cynnwys ein rhesymau dros gynnig cymhwyso'r Cod i TFW Fibre Limited.

## Materion ffeithiol

### Y Ceisydd a phwerau'r Cod y gwnaed cais amdanynt

3.2 Ar 14 Mawrth 2025, cawsom gais sy'n bodloni'r gofynion statudol.[19]

3.3 Y sawl sy'n ceisio pwerau'r Cod (y Ceisydd) yw:

- Enw'r cwmni: TFW Fibre Limited
- Rhif cofrestru'r cwmni: 15472858
- Swyddfa gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Cymru, CF37 4TH

3.4 Mae'r Ceisydd wedi gwneud cais i Ofcom am gyfarwyddyd sy'n cymhwyso pwerau'r Cod o dan adran 106(4)(a) a (b) o'r Ddeddf. Yn benodol, at y diben bod y Ceisydd yn darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig; ac at y diben bod y Ceisydd yn darparu system seilwaith y mae'n sicrhau ei bod ar gael, neu'n cynnig sicrhau ei bod ar gael, i'w defnyddio gan ddarparwyr cyfathrebiadau electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau.

### Disgrifiad a lleoliad y rhwydwaith a'r system seilwaith ar gyfer pwerau'r Cod

3.5 Mae'r Ceisydd yn ceisio pwerau'r Cod i hwyluso'r gwaith o gyflwyno rhyngrwyd band eang cysylltiad ffeibr i'r adeilad (sy'n gallu delio â gigabits) drwy dir rheilffordd, sy'n rhedeg drwy ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru. "Llinellau Craidd y Cymoedd" yw enw'r rheilffordd hon.

3.6 Mae'r Ceisydd yn ceisio pwerau'r Cod i gynnig gwasanaethau a reolir y mae'n bwriadu eu lesio i gwsmeriaid ar sail gyfanwerthol. Mae'r Ceisydd yn bwriadu lesio'r gwasanaethau hyn i'r sector cyhoeddus ac i gwsmeriaid busnes a phreswyl.

3.7 Mae'r Ceisydd yn cynnig bod y gwasanaethau a reolir yn cael eu hadeiladu'n uniongyrchol ar eiddo preswyl a busnes, drwy wasanaethau seilwaith ffisegol Openreach a gwaith hunan-gloddio.

3.8 Mae'r Ceisydd hefyd yn bwriadu cynnig ffeibr tywyll i ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig eraill ar dir y rheilffordd.

3.9 Bydd canolfannau data cychwynnol y Ceisydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cwmpas i'r Ceisydd ymestyn i ganolfannau data eraill ledled y Deyrnas Unedig.

[19] Hysbysiad o dan Adran 107(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Atodiad B y datganiad o'r enw 'The Granting of the Electronic Communications Code by the Director General of Telecommunications – A Statement issued by the Director General of Telecommunications', a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2003.

## Dadansoddi'r pedwar ffactor

3.10 Fel y nodir ym mharagraff 2.13 uchod, rhaid i Ofcom ystyried pedwar ffactor wrth ystyried a ddylid cymhwyso'r Cod i unrhyw berson.

### Y budd i'r cyhoedd o ganlyniad i'r rhwydwaith cyfathrebiadau electronig neu'r system seilwaith y cyfeirir ati wrth gymhwyso'r Cod i'r Ceisydd

3.11 Mae'r Ceisydd yn credu y byddai ei wasanaethau a reolir a'i ffeibr tywyll arfaethedig o fudd i gymunedau a chwsmeriaid yn y ffyrdd canlynol:

- cyflenwi cwsmeriaid â ffeibr tywyll y gallant ei gysylltu â'u rhwydwaith/rhwydweithiau priodol;
- galluogi cyflymderau a signal band eang gwell i gwsmeriaid, mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd â dwysedd coed uchel, sydd ar hyn o bryd yn cael cyflymderau a signal gwael;
- gwerthu gwasanaethau cyfathrebiadau electronig a reolir ar sail gyfanwerthol i gleientiaid cyfanwerthu a/neu'n uniongyrchol i'r sector cyhoeddus ac i gwsmeriaid preswyl a busnesau;
- darparu gwasanaethau cyfathrebiadau electronig a ffeibr tywyll a reolir am bris cystadleuol yng Nghymru;
- cyflwyno ei rwydwaith cysylltiad ffeibr i'r adeilad mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan rwydweithiau o'r fath ar hyn o bryd, sef ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan rwydwaith mynediad copr BT yn unig fel arfer.

3.12 Rydym yn disgwyl y bydd cyflwyno rhwydweithiau newydd yn gwella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael, ac yn helpu i fodloni anghenion cynyddol pobl a busnesau am gysylltedd. Pan fydd darparwyr yn ehangu eu darpariaeth rhwydwaith, rydym yn disgwyl i gystadleuaeth ysgogi arloesedd a chynyddu'r dewis i gwsmeriaid.

3.13 I roi'r darlun cyflawn, rydym yn nodi y gallai gwaith stryd sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a'r systemau seilwaith arfaethedig darfu ar ddinasyddion yn y tymor byr. Gallai hyn gynnwys cau strydoedd, cyfyngiadau traffig a sŵn sy'n gysylltiedig â gwaith i osod offer cyfathrebiadau electronig. Efallai y bydd effaith weledol hefyd os bydd y Ceisydd yn defnyddio cyfarpar fel cabinetau, polion a llinellau uwchben. Rydym yn nodi bod gan y gweithredwyr y mae'r Cod yn berthnasol iddynt hawliau i osod cyfarpar cyfathrebiadau electronig ar briffyrdd cyhoeddus, yn amodol ar rwymedigaethau penodol fel y nodir yn yr amodau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r Cod, deddfwriaeth gwaith stryd a deddfwriaeth cynllunio. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r ffordd o gynnal gwaith stryd, y mathau o gyfarpar y gellir eu gosod, effaith weledol cyfarpar a'r gofynion cynllunio perthnasol. Credwn y gallai rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a system seilwaith arfaethedig y Ceisydd fod o fudd i'r cyhoedd.

### Ymarferoldeb darparu'r rhwydwaith a'r system seilwaith heb gymhwyso'r Cod

3.14 Mae'r Ceisydd wedi datgan na fyddai'n ymarferol iddo gyflwyno'r rhwydwaith a'r system seilwaith arfaethedig heb bwerau'r Cod oherwydd:

- Mae'r Ceisydd yn gwybod o brofiad nad yw hi bob amser yn bosib cael telerau boddhaol (o ran cael mynediad at dir preifat) i ddarparu'r gwasanaethau cyfathrebiadau electronig a ffeibr tywyll i'w gwsmeriaid.
- Byddai'r Ceisydd dan anfantais fasnachol o'i gymharu â gweithredwyr eraill sy'n dal pwerau'r Cod oherwydd bod y gweithredwyr hynny'n gallu darparu rhwydweithiau'n gyflym, gyda llai o gostau.
- Ni fyddai ganddo'r hawl i osod cyfarpar ar strydoedd ac felly byddai angen iddo wneud cais am drwyddedau gwaith stryd yn unol ag adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Mae'r Ceisydd yn credu y byddai hyn yn ddrud ac yn oedi'r broses o gyflwyno ei rwydwaith arfaethedig.

3.15 Credwn fod yr achos busnes dros rwydwaith band eang yn dibynnu'n gyffredinol ar lefel costau adeiladu'r rhwydwaith, ar ddarparu gwasanaethau yn brydlon ac ar bobl yn dechrau defnyddio'r gwasanaethau yn brydlon. Heb gymhwyso'r Cod, mae'n debygol y byddai costau'r Ceisydd yn uwch a'r amser a gymerir i ddarparu gwasanaethau yn hirach. Gyda'i gilydd, credwn y gallai'r effeithiau hyn wanhau achos busnes y Ceisydd dros gyflwyno ei rwydwaith a'i system seilwaith.

3.16 Credwn na fyddai'r rhwydwaith a'r system seilwaith sydd wedi'u cynllunio gan y Ceisydd yn ymarferol heb gymhwyso'r Cod.

## Yr angen i hybu'r arfer o rannu cyfarpar cyfathrebiadau electronig

3.17 Mae'r Ceisydd wedi dweud bod rhannu cyfarpar o amgylch Tir y Rheilffordd yn amodol ar weithdrefnau iechyd a diogelwch, ac ar gytundeb mai dim ond TFW Fibre sy'n gwneud y gwaith cynnal a chadw. Y tu hwnt i Dir y Rheilffordd, mae'r Ceisydd yn fodlon, yn gontractiol ac yn weithredol, rhannu ei rwydwaith yn amodol ar gytuno ar delerau masnachol.

3.18 Bydd rhannu'r rhwydwaith yn helpu i leihau amlhad diangen cyfarpar cyfathrebiadau electronig, gan greu manteision amgylcheddol sy'n cyd-fynd ag amcanion hirsefydlog y Llywodraeth er budd y cyhoedd.

3.19 Credwn y byddai rhoi pwerau'r Cod i'r Ceisydd yn ei gwneud hi'n haws rhannu cyfarpar.

## A fydd y Ceisydd yn gallu cyflawni rhwymedigaethau o ganlyniad i (i) cymhwyso'r Cod; a (ii) unrhyw ymddygiad mewn perthynas â chymhwyso'r Cod

3.20 Mae'r Ceisydd wedi rhoi gwybodaeth i ni, ynghyd â'i gais, sy'n cadarnhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau i ddarparu cyllid ar gyfer dyledion o dan Reoliad 16[20], a chadarnhad gan un o gyfarwyddwyr y cwmni y bydd yn sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer y dyledion hyn (a bydd yn rhoi tystysgrif i Ofcom i'r perwyl hwn) os a phan fydd hyn yn angenrheidiol.

3.21 Ar sail y wybodaeth hon, credwn y byddai'r Ceisydd yn gallu talu ei ddyledion.

[20] Rheoliadau'r Cod Cyfathrebiadau Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) 2003 (OS 2003 Rhif 2553) (fel y'u diwygiwyd).

## Asesiad cyffredinol

3.22 Yn ogystal â'n hystyriaeth o'r pedwar ffactor a drafodir uchod ym mharagraff 2.13, credwn y byddai ein cynnig yn cyflawni neu'n hybu ein dyletswyddau statudol o dan adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf.

3.23 Yn benodol, credwn y byddai ein cynnig yn hybu buddsoddiad ac arloesedd drwy helpu'r Ceisydd i ddarparu rhwydwaith band eang cysylltiad ffeibr i'r adeilad a system seilwaith. Byddai darparu system rhwydwaith a seilwaith o'r fath yn hybu mynediad at rwydweithiau capasiti uchel iawn ac argaeledd ystod eang o wasanaethau cyfathrebiadau, gan gynnwys gwasanaethau trosglwyddo data cyflym iawn. Yn ein barn ni, byddai hyn hefyd yn helpu i gefnogi datblygiad, twf ac argaeledd gwasanaethau cyfathrebiadau modern yn y dyfodol er budd y cyhoedd.

3.24 Bydd y cynnig hwn yn gwella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael ac yn helpu i fodloni anghenion cysylltedd cynyddol pobl a busnesau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

3.25 Credwn y gallai system seilwaith y Ceisydd wella'r gystadleuaeth o ran darparu seilwaith o'r fath gan fod y Ceisydd yn cynnig gwasanaethau seilwaith cyfanwerthol mewn cystadleuaeth â darparwyr gwasanaethau eraill o'r fath.

3.26 Hefyd, credwn y gallai rhwydwaith arfaethedig y Ceisydd wella cystadleuaeth a'r dewis i gwsmeriaid gan fod y Ceisydd yn cynnig darparu gwasanaethau manwerthu sy'n cystadlu â darparwyr telegyfathrebiadau presennol, a darparu gwasanaethau cyfanwerthol i ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill.

3.27 Mae effaith gweithredu'r cynnig yn debygol o fod yn isel. Mae'r manteision yn debygol o fod yn drech nag unrhyw gostau i'r rhai y mae defnydd y Ceisydd o bwerau'r Cod yn effeithio arnynt. Ar y llaw arall, mae'r effaith niweidiol ar y Ceisydd yn sgil gwrthod rhoi pwerau o'r fath (gan gynnwys ar ymarferoldeb y gwaith o gyflwyno ei rwydwaith) yn debygol o fod yn sylweddol.

3.28 Credwn hefyd nad yw effaith ein cynnig yn debygol o niweidio unrhyw grŵp gwarchodedig mewn cymdeithas.

## Y Cynnig

3.29 Ar ôl ystyried cais y Ceisydd ar gyfer pwerau'r Cod, rydym yn cynnig y dylai'r Cod ddod i rym ar gyfer y Ceisydd pan fydd yn darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig ac yn darparu system seilwaith y mae'r Ceisydd yn sicrhau ei bod ar gael, neu'n cynnig sicrhau ei bod ar gael, i'w defnyddio gan ddarparwyr cyfathrebiadau electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau yn y Deyrnas Unedig.

3.30 Credwn fod ein cynnig yn briodol ar ôl rhoi sylw i'r ystyriaethau a nodir yn adran 107(4) o'r Ddeddf. Credwn y byddai ein dyletswyddau statudol yn adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf yn cael eu cyflawni a'u hybu mewn perthynas â'r cynnig hwn.

3.31 Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a geir erbyn y dyddiad cau cyn penderfynu a ddylem roi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i'r Ceisydd.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae’r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a’n rhesymeg wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 1 Mehefin 2025.

A1.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yma. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i ECCcodepowers@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 1 Mehefin 2025.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Electronic Communications Code Team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A1.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A1.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Thîm y Cod Cyfathrebiadau Electronig ar 020 7981 3000, neu e-bostiwch ECCcodepowers@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2025.

A1.17 Os ydych chi'n dymuno, gallwch gofrestru i gael diweddariadau i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom

Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom): ECC Team

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i'r Ceisydd?

# A5. Hysbysiad statudol

## Hysbysiad o dan adran 107(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

**Cynnig i roi cyfarwyddyd i gymhwyso'r cod cyfathrebiadau electronig**

**Y Cynnig yn yr Hysbysiad hwn**

**1.** Mae Ofcom drwy hyn yn cynnig, yn unol ag adran 107(6) o'r Ddeddf, rhoi cyfarwyddyd o dan adran 106(3) o'r Ddeddf i gymhwyso'r Cod i'r Ceisydd.

**2.** Mae'r cyfarwyddyd arfaethedig sy'n cymhwyso'r Cod i'r Ceisydd ar y telerau a gynigir wedi'i nodi yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

**3.** Mae rhesymau Ofcom dros roi'r cyfarwyddyd arfaethedig wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig.

**Dyletswyddau Ofcom**

4. Wrth wneud y cynnig hwn, mae Ofcom wedi ystyried, yn benodol, pob un o'r materion a nodir yn adran 107(4) o'r Ddeddf. Yn ogystal â hynny, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o'r Ddeddf, a'r chwe gofyniad a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf.

**Gwneud sylwadau**

5. Gellir cyflwyno sylwadau ar y cynnig hwn drwy e-bost i ECCcodepowers@ofcom.org.uk erbyn 5pm ar 1 Mehefin 2025 fan bellaf.

### Dehongli

6. Yn yr Hysbysiad hwn—

(a) ystyr "**Deddf**" yw Deddf Cyfathrebiadau 2003.;

(b) ystyr "**Ceisydd**" yw TFW Fibre Limited, sydd â'r rhif cwmni cofrestredig 15472858;

(c) ystyr "**Cod**" yw'r cod cyfathrebiadau electronig a amlinellir yn Atodlen 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003;

(d) ystyr "**Ofcom**" yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau.

7. At ddibenion dehongli'r Hysbysiad hwn—

(a) caiff penawdau a theitlau eu diystyru;

(b) bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys fel pe bai'r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.

8. Mae'r Atodlen sydd ynghlwm yn rhan o'r Hysbysiad hwn.

**Llofnod**



**Brian Potterill**

**Cyfarwyddwr Polisi, Rhwydweithiau a Chyfathrebiadau**

Person a awdurdodwyd yn briodol yn unol â pharagraff 18 yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

1 Mai 2025

## ATODLEN

## Cyfarwyddyd *[arfaethedig]* o dan Adran 106(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i gymhwyso'r cod cyfathrebiadau electronig

**Cefndir**

**1.** Mae TFW Fibre Limited, sydd â'r rhif cwmni cofrestredig 15472858, wedi gwneud cais i Ofcom am gyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod iddo.

**2.** Y dyddiad y cafodd Ofcom gais cyflawn sy'n bodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â chynnwys cais am gyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod a'r modd y dylid gwneud cais o'r fath oedd 14 Mawrth 2025.

**3.** Yn rhinwedd rheoliad 3 o Reoliadau Cyfathrebiadau Electronig a Thelegraffiaeth Ddi-wifr 2011 (OS 2011 Rhif 1210), ac eithrio mewn achosion o ddifeddu, mae'n rhaid i Ofcom wneud ei benderfyniad o fewn 6 mis i gael cais cyflawn.

**4.** Cyn gwneud penderfyniad o dan adran 106(3) o'r Ddeddf i gymhwyso'r Cod i'r TFW Fibre Limited, rhaid i Ofcom gyhoeddi hysbysiad o'i gynnig i roi'r cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau am y cynnig hwnnw sy'n cael eu gwneud i Ofcom o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.

**5.** Ar 1 Mai 2025, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn unol ag adran 107(6) o'r Ddeddf o'i gynnig i roi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i TFW Fibre Limited. Roedd yr hysbysiad hwnnw'n gwahodd sylwadau i Ofcom erbyn 5pm ar 1 Mehefin 2025 fan bellaf.

**6.** *[Mae Ofcom wedi ystyried pob sylw am y cynnig a gyflwynwyd iddo/ni chafodd Ofcom unrhyw sylwadau am y cynnig].* Am y rhesymau a nodir yn y datganiad esboniadol sy'n cyd-fynd ag ymgynghoriad Ofcom, mae Ofcom wedi ystyried, yn benodol, pob un o'r materion a nodir yn adran 107(4) o'r Ddeddf. Yn ogystal â hynny, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o'r Ddeddf, a'r chwe gofyniad a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf.

**Penderfyniad**

**7.** Mae Ofcom, drwy hyn, yn cyfarwyddo yn unol ag adran 106 o'r Ddeddf fel a ganlyn—

(a) bydd y Cod yn berthnasol i TFW Fibre Limited (sydd â'r rhif cwmni cofrestredig 15472858) at y diben ei fod yn darparu:
  i. rhwydwaith cyfathrebiadau electronig;
  ii. system seilwaith y mae'n sicrhau ei bod ar gael, neu'n cynnig sicrhau ei bod ar gael, i'w defnyddio gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau;

(b) bydd cymhwyso'r Cod yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig.

**8.** Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar y diwrnod y caiff ei gyhoeddi.

**Dehongliad**

**9.** Yn y Cyfarwyddyd hwn—

(a) ystyr "**Deddf**" yw Deddf Cyfathrebiadau 2003.;

(b) ystyr "**Cod**" yw'r cod cyfathrebiadau electronig a amlinellir yn Atodlen 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003;

(c) ystyr "**Ofcom**" yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau.

**10.** At ddibenion dehongli'r Cyfarwyddyd hwn—

(a) caiff penawdau a theitlau eu diystyru;

(b) bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys fel pe bai'r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.

**Llofnod**

**Brian Potterill**

**Cyfarwyddwr Polisi, Rhwydweithiau a Chyfathrebiadau**

Person a awdurdodwyd yn briodol yn unol â pharagraff 18 yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

[date]